`Y Gwir yn Erbyn y Byd!`

# Seren Tan Gwmwl

Rhif 6
Haf 1998

ffansin hanes annibynnol !

50c



# Ry` ni`n cadw llygad arnoch chi!




## Golygyddol: dyma`r neges....

Mae`r rhifyn hwn o Seren Tan Gwmwl yn sôn llawer am sefydliadau, a`r syniad ei bod yn iawn i weithio o fewn y system i geisio creu newid. Mae`r system yr ydym yn rhan ohoni yn newid yn gyflym, ac mae Cymru yn datblygu ei sefydliadau ei hun - fel y Cynulliad newydd. Mae`n bwysig ein bod yn sicrhau yn y dyfodol nad yw`r sefydliadau hyn yn cael eu cam-ddefnyddio gan y bobl sy`n eu rheoli. Rhaid i`r Cynulliad beidio dilyn llwybr tebyg i`r un mae cyfryngau Cymru wedi dilyn - sef eu bod yn bodoli er lles y bobl sy`n eu rheoli ac yn gweithio iddyn nhw, ac nid er lles Cymru.

Fel mae`r rhifyn hwn o STG yn dweud, mae angen ail-feddwl am sefyllfa Cymru a`i sefydliadau. Gobeithio na fydd y Cynulliad newydd yn creu dosbarth llywodraethol newydd yng Nghymru - apparatiki - gyda`i hunig rôl mewn gwirionedd i fodoli er eu lles eu hunain, heb newid dim.

Gallwn sicrhau na fydd hyn yn digwydd drwy ddatblygu`r feddylfryd gywir - rhaid i sefydliadau Cymru ddatblygu mewn ffordd sy`n datganoli grym, ac nid ei ganoli i Gaerdydd. Mi fydd yn ddiddorol gweld beth fydd yn digwydd pan fydd syniadaeth y blaid sy`n rheoli Gwynedd yn dod ben-ben â syniadau apparaticks y blaid honno`n ganolog - wedyn fe gawn ni weld pwy sydd mewn gwleidyddiaeth i wasnaethu eu pobl, a phwy sydd yno er eu lles eu hunain!

Rhaid cofio mai nid sefydliadau sy`n creu newid chwyldroadol ond pobl. Rhaid i Gymru a`i phobl ddatblygu ffordd bositif o edrych ar eu hunain - does dim byd yn ein gormesu fwy na`r syniad ein bod yn is-raddol. O wneud hyn fydd dim modd i ni gael ein gormesu - gan lywodraeth yn Llundain na Chaerdydd. Fel y dywed Steve Biko ***Yr arf mwyaf pwerus yn nwylo`r gormeswr yw meddwl yr un sy`n cael ei ormesu***. Dydyn ni ddim eisiau annibynniaeth - rydyn ni eisiau rhyddid. Mae bod yn rhydd gymaint i wneud â`n meddylfryd ag yw i wneud â sefydliadau o unrhyw fath.

Golygyddion: Owen Llywelyn - 7 Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HG
Daniel Davies - Y Fflat, Clwb Dewi Sant, 35 Eastgate, Aberystwyth

# DIWEDD GOFAL YN Y GYMUNED I BOBL NEIS



Mae Llywodraeth Lafur Newydd Tony Blair wedi datgan ei bod yn bwriadu cael gwared ar un o broblemau cymdeithasol mawr ein hoes. Dywedodd Blair ddoe... *"Mae`r arbrawf gyda Gofal yn y Gymuned drosodd. Rhaid rhoi`r bobl yma nôl mewn cartrefi"*. Y bobl dan sylw Mr Blair yw pobl neis. Yng ngeiriau`r arweinydd mawr ei hun *`mae rhai pobl yn rhy neis i`w lles nhw`u hunain, a`r peth gorau iddyn nhw, ac i gymdeithas, yw eu cloi bant mewn cartrefi a`u dysgu sut i fyw mewn cymdeithas gystadleuol, gas`*.

Fe siaradon ni gyda`r meddyg Dr Randall P McMurphy. Dywedodd... *"Mae`r clefyd yn amlygu ei hun mewn plentyndod, ac mae`n deillio`n aml o gael rhieni cariadus sy`n magu eu plant yn iawn, a`n dangos iddyn nhw barchu pobl eraill. Y RHIENI SYDD AR FAI!"*. Rhai o`r symtomau yw....



* agor drysau i famau beichiog
* codi o`ch sedd ar y bws i hen bobl
* gwenu ar blant
* codi eich het i gyfarch person

Dywedodd Blair... *"Byddwn yn creu cyfres newydd o ddeddfau i atal y clefyd. Bydd dim hawl gwisgo hetiau`n gyhoeddus, bydd dim seddi ar fysus o hyn ymlaen, a bydd pob drws yn cael ei reoli`n electronig. Bydd hyn yn lleihau`r temtasiwn i bobl droseddu, ac yn atal lledaeniad y clefyd ofnadwy yma."*

Ategodd Tony Blair... *"Mae`r holl weithredoedd neis hyn yn wastraff amlwg ar egni, yn fwrn ar economi Prydain, ac yn arwain at awyrgylch anghystadleuol. Charity begins at home, and that`s where we`re going to put them"*


Golygyddion: Owen Llywelyn - 7 Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HG

# GWERTHU`R IAITH GYMRAEG - NEWYDDION ECSCLIWSIF I SEREN TAN GWMWL

Cafwyd newyddion syfrdanol heddiw pan gyhoeddodd prif fudiad radical Cymru - Cymdeithas yr Iaith Gymraeg - bod yr hwch wedi mynd drwy`r siop: mewn geiriau eraill, maen nhw`n skinters busters. Bore `ma galwyd ar y *liquidator* Coopers & Lybrand i ddod mewn i`w pencadlys yn Aberystwyth a dechrau ar y broses o werthu asedau`r mudiad. Dywedodd Ffred Ffransis: *"Mae`r siom yn anghredadwy. Cwmni teuluol yw hwn, ac roeddwn wedi gobeithio ei drosglwyddo i mhlant".*




Mae llawer o bobl wedi beirniadu bwrdd cyfarwyddo cwmni Cymdeithas yr Iaith, ac yn arbennig Gareth Kiff, Nick Gleeson Cymru, am hapfasnachu dyfodol yr iaith gyda chynlluniau iselgeisiol yn y Dwyrain Pell (Gwent). Honnir ei fod wedi gamblo ar yr opsiwn sigledig `Dwyieithrwydd`. Dywedodd Kiff....



Yn y misoedd diwethaf mae CYIG wedi gofyn am gymorth pobl Cymru i godi`r £40,000 oedd angen i gadw`u pennau uwchlaw`r dwr, ond gallwn ddatgelu mai`r unig ymateb i`r apel oedd tin o *Peddigree Chum*, pecyn o *Hula Hoops* a photel o *Vaseline*.



Yn ôl pob sôn prif ased Cymdeithas yr Iaith yw`r Iaith Gymraeg ei hun, ac mae`n fwriad felly i gynnal arwerthiant o hon yn Sothebys, Llundain yn fuan. Mae Prys Edwards eisioes wedi datgelu bod brwydr yr iaith drosodd, ac mae`n gwneud synnwyr felly yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni i werthu`r iaith i`r prynwr sy`n cynnig fwyaf amdani. Fel hyn fydd yr arwerthinat yn digwydd....

*`Dim ond un rhan o`r cwmni Cymdeithas yr Iaith yw adran `Cymdeithas yr Iaith* ***Gymraeg*** *cyf`. Mae ein haelodau wedi dangos diddordeb mewn gwledydd eraill fel Lesotho, Nicaragua, Gwlad y Basg, Bongo Bongo Land a Gwent. Erbyn hyn yn y farchnad rydd dyw`r Iaith Gymraeg ddim yn feasible option. O`r diwedd bydd modd i`r Gymdeithas drefnu gigs sy`n cyflogi bandiau Saesneg fel Super Furry Animals, The Gorkys ac Aerosmith Meets Run DMC`.*



Nick Gleeson

* bydd rhai geiriau yn cael eu gwerthu`n unigol: mae Ffermwyr Ifanc Ceredigion eisioes wedi rhoi cynnig o £50,000 am y gair CEILOG, tra bod cast y gyfres sebon boblogaidd, safonol *Pobol y Cwm* yn bwriadu gwario cyflog blynyddol Huge Ceredig (£350,000) ar brynu`r gair SBO.




* mae geiriau eraill yn mynd i gael eu gwerthu mewn lots gyda`i gilydd, ac mae rhai o`r KKK (Cymry Cymraeg Caerdydd) eisioes wedi dangos diddordeb mewn brawddegau fel TWLL TIN POB SAIS a FE GEWCH CHI`R TY AM £90,000 MR FARQUAH-JOHNSON.

Credir bod y Gymdeithas ei hun yn meddwl rhoi cynnig am y geiriau DIWERTH, AR WERTH, DIGLEM, PWPS, METHIANT a LLWYR. Er hynny, dyw`r Gymdeithas, na neb arall hyd yn hyn, wedi cynnig am eiriau fel RADICAL, DEMOCRATIAETH, LLWYDDIANT, SYNIADAETH, YSBRYDOLIAETH a HYDER.


DAILY MIRROR EXTRA

# CYMDEITHAS

# ENDS AT LAST!

Dywedodd Dafydd Ellis Thomas o`i gartref gwyliau yn Chile bod *`hwn yn gynllun gwych fydd yn hybu`r Iaith Gymraeg led-led y byd`*. Dywedodd llefarydd ar ran BBC ac S4C nad oedd ganddyn nhw ddiddordeb o gwbl, a`u bod am barhau â`u polisi llwyddiannus sy`n gweithredu ers pum mlynedd o beidio dangos diddordeb yn yr Iaith Gymraeg.

# STEVE BIKO, *BLACK CONSCIOUSNESS*, A CHYMRU!




*`Yr arf mwyaf pwerus yn nwylo`r gormeswr yw meddwl yr un sy`n cael ei ormesu`.*

Yn 1977 cafodd Steve Biko ei arestio gan heddlu De Affrica. Cafodd ei gadw yn y ddalfa heb ddod gerbron llys, a thra`i fod yn cael ei ddal gan yr heddlu fe`i curwyd, a chafodd ei gadw`n noeth mewn cell am dair wythnos. Yn y diwedd, ar ôl un sesiwn holi a dyrnu aeth mewn i *coma*. Cafodd ei yrru mewn *Land Rover* ar daith o 1,000 o filltiroedd i ysbytu`r heddlu yn Pretoria. Yn 30 oed, bu farw Steve Biko yn yr ysbyty.

Erbyn hyn mae ei enw`n gyfarwydd i lawer o bobl oherwydd y ffilm *Cry Freedom*, ond mae syniadau Biko am sut i ymladd yn erbyn gormeswyr yn dal yn weddol anghyfarwydd i lawer o bobl. **Mae Biko yn haeddu y teitl arwr** - arweiniodd ei syniadau at roi hyder i bobl ddu, ac yn anuniongyrchol ef oedd yn gyfrifol am ysbrydoli plant ysgol Soweto i godi mewn gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth gwyn oedd yn eu gorfodi i astudio`r iaith *Afrikaans*. Ysgrifennu dan yr enw **Frank Talk** wnai Biko. Dyma felly rai o syniadau Biko: syniadau sy`n gwbl berthnasol i Gymru heddiw.

Credai Biko mai ym meddyliau pobl roedd y frwydr fwyaf yn digwydd. Yr unig ffordd allai`r bobl ddu fod yn rhydd oedd os oedden nhw`n dysgu i garu eu hunain, eu hiaith, eu diwylliant a`u ffordd o fyw. Dim ond drwy ennyn hunan-falchder mewn bod yn ddu allai`r bobl ddu frwydro yn erbyn gormes y bobl wyn.


*Mae Black Consciousness yn ceisio creu hunan-falchder ymhlith pobl ddu, balchder yn eu hymdrechion, eu system o werthoedd, eu diwylliant, eu crefydd a`u ffordd o edrych ar fywyd.*

Sylweddolai Biko bod dynion du wedi cael eu dysgu i fod yn is-raddol, a`u paratoi`n feddyliol i gael eu rheoli. Roedd yn rhaid creu ymwybyddiaeth bositif ymhlith pobl ddu o`u hanes a`u gorffennol, a thrwy wneud hyn roi hyder iddyn nhw weithredu yn y presennol.





*Y cam cyntaf felly yw i bwmpio bywyd nôl mewn i`r gragen wâg: i drwytho`r person du gyda balchder... i`w atgoffa o`r drosedd mae`n cyflawni o ganiatau i`w hun i gael ei gam-ddefnyddio, a thrwy wneud hynny adael i ddrygioni deyrnasu. Dyma yw`r diffiniad o Black Consciousness.*


Mae syniadau Biko yn trafod yn fanwl sut roedd y llywodraeth wyn yn Ne Affrica wedi dysgu i reoli`r bobl ddu drwy eu rhannu. Dywedodd bod ymgais y dyn gwyn i reoli yn golygu ei fod yn dinistrio popeth oedd yn sefyll yn ei ffordd. Mewn ymdrech i rannu`r gwrthwynebiad du i Apartheid dysgodd y llywodraeth i roi triniaeth ffafriol i rai grwpiau mewn cymdeithas. Chief Buthelezi oedd fersiwn De Affrica o`r Arglwydd Dafydd Ellis Thomas - dyn oedd yn siarad o blaid y system wedi iddo gael ei brynu ganddi.




Mae`n mynd ymlaen i drafod y theori peryglus o **weithio o fewn y system**. "*Mae`n fwy deniadol ac yn fwy diogel i weithio o fewn y system, ond mae`n rhaid i ni sylweddoli ein bod drwy wneud hynny ar y llwybr i werthu`n heneidiau*". Dywed Biko bod pobl wastad yn chwilio am *niche* cyfforddus iddyn hhw`u hunain o fewn system. Mewn ysgrif o`r enw *The Fragmentation of the Black Resistance* mae`n dweud bod angen i bobl sy`n cael eu gormesu **hybu ysbryd o hunan-ddibyniaeth** a pheidio cyd-weithio gyda`r system sy`n eu gormesu. "*Mae`r theori yn un gyffredin iawn a pheryglus iawn - sef ei bod yn iawn i geisio gweithio o`r tu fewn i`r system er mwyn hybu ein hachos*".


Mae`n mynd ymlaen i drafod seicoleg y person sy`n cael ei ormesu. Dywed **The most potent weapon in the hands of the oppressor is the mind of the oppressed**. Mae`n cyfeirio at y propaganda di-ddiwedd oedd yn cael ei ddarlledu gan y llywodraeth ar RADIO BANTU - hanner gwirioneddau a chelwyddau, ac mae`n feirniadol iawn o`r bobl ddu oedd yn gwasanaethu`r system drwy roi cymorth i`r llywodraeth. Mae`n siwr nad yw Aled Glynne Davies na Huw Jones yn gyfarwydd â llyfr Steve Biko - *I write what I like.*





Rhan arall o`r ateb yn ôl Biko yw i ail-ysgrifennu hanes, a gwneud hynny mewn modd sy`n dangos y person sy`n cael ei orthrymu mewn ffordd bositif. Dywed fod "*pobl heb hanes positif fel cerbyd heb injan*" a bod dyletswydd ar bobl i ymfalchio yn eu harwyr, ac nid yn yr arwyr sydd wedi cael eu rhoi iddyn nhw ar blat gan y system. Dyma pam mae`r rhifyn hwn o Seren Tan Gwmwl yn rhoi sylw i werin Mynydd Bach, ac nid i weision Prydain, pobl fel OM Edwards.

"*Mae rhyngweithiad bob amser rhwng hanes pobl, hynny yw y gorffennol, a`r ffydd sydd ganddyn nhw yn eu hunain a`u gobeithion am y dyfodol... Mae`n rhaid i ni ail-ysgrifennu ein hanes, a thrwy wneud hynny ddisgrifio`r arwyr sydd wedi ymladd y gormeswyr... rhaid cysylltu`r gorffennol gyda`r presennol a dangos esblygiad hanesyddol...*"



Fel mae Biko`n dweud mae chwyldroadau yn dechrau ym meddyliau a chalonnau pobl. Roedd meddyliau a chalonnau y plant du wnaeth arwain gwrthryfel Soweto yn 1976 wedi dysgu i garu eu hunain, i ddangos balchder yn eu hunain, ac yn fwy na dim i wrthod y bathodyn is-raddol oedd wedi cael ei roi iddyn nhw gan system y dyn gwyn.


Fel y dywed Biko **It is a sin to allow oneself to be oppressed**. O`i syniadau gallwn edrych ar ein hunain, ein sefyllfa ni yng Nghymru heddiw, a dysgu gwersi pwysig.


# `ONCE UPON A TIME IN THE WEST`

## Gwir Arwyr Hanes Cymru - Rhyfel y Sais Bach.

Dynion yn gwisgo dillad menywod ac yn ymosod ar gartrefi. Llosgi ty Sais i`r llawr. *Gunslinging* ar ben Mynydd Bach yng Ngheredigion - dyma rai o`r digwyddiadau mwyaf dramatig mewn 10 mlynedd gyffrous mewn ardal dawel ger Llyn Eiddwen. Mae`r stori yn dechrau pan basiodd y Llywodraeth Ddeddf Cau Tir Comin yn 1815 - tir oedd yn cael ei ddefnyddio gan y werin ar gyfer pob math o weithgareddau. Yn Rhagfyr 1819 prynodd dyn o`r enw Augustus Brackenbury 850 o erwau o dir - tir yr roedd trigolion Mynydd Bach wedi arfer torri mawn arno.


Fel hyn mae Brackenbury, neu y Sais Bach, yn cael ei ddisgrifio.... *`dyn bychan o ran corff, gwallt du talcen slip, llygaid llwydion, llymion, trwyn hir a gwefusau tewion. Ei wisg ydoedd het sidan, cot hir hyd hanner ei goesau, gwasgod felfed, trowser carsimer a sannau gwynion.`*






Yn gynnar yn 1820 dechreuodd Brackenbury godi ty neu gastell o`r enw **Green Meadow**, ac yn dilyn bygythiad wrth y bobl leol i dorri`r ffensys a dinistrio`i adeiladau, cyflogodd *bodyguard* o`r enw William Smith. Ar Orffennaf y 4ydd, 1820 y dechreuodd yr hwyl, pan saethodd rhai o`r trigolion lleol at y ty. Ar Orffennaf 11 ymosododd torf arfog ar y castell, ac er i Brackenbury ddatgan yn glir ei fod yn bwriadu `*amddiffyn fy nghastell*` cafodd ei orfodi i ddod allan o`r ty wedi i`r *bodyguard* a`i gyfeillion eraill ffoi. Llosgwyd y ty i`r llawr gan dorf oedd yn gwisgo dillad merched, ac wedi duo`u hwynebau, a bu`n rhaid i Brackenbury addo peidio dychwelyd. Er i`r Ynadon gynnig £100 am fwy o wybodaeth, chafodd neb eu dal.

Dychwelyd wnaeth Brackenbury serch hynny. Yn 1826 dechreuodd adeiladu `castell` ar Fynydd Bach: cloddiwyd ffos o`i amgylch a chodwyd tyrrau mawr o gerrig - rhoddwyd yr enw **Castell Talwrn** i`r adeilad hwn, a symudodd Brackenbury mewn ar 13 Ebrill, 1826. Roedd ei ymddygiad y tro hwn yn uffernol o uchelael - yn ystod y mis cyntaf y bu yno bu`n bygwth merch oedd yn croei ei dir, bu`n atal y trigolion lleol rhag torri mawn yno, ac fe gwrsodd bachgen oddi ar ei dir am ddim rheswm o gwbl. Roedd hyn yn ormod i`r bobl leol. Lluniwyd deiseb i brotestio am ymddygiad Brackenbury....




*He and his Banditti being the greatest Reprobates he could find in England and elsewhere have committed such Atrocities on Scores of Individuals (too numerous to mention) by destroyning their turf & that it calls loud for vengeance. This is but a short Sketch of Brackenbury and his bullies` Barbarity and Cruelty on Mynydd Bach. No person could pass and repass without being insulted, assaulted, pursued and spat at.*



Pan ymosododd rhai o fwlis Brackenbury ar eiddo pobl oedd wedi bod yn torri mawn ar ei dir tra`u bod yn y Capel, fe benderfynwyd bod yn rhaid gweithredu. Ar Fai 23, 1826 clywodd y trigolion lleol bod Brackenbury wedi mynd i Aberystwyth: lledodd y newyddion hyn fel tân eithin, ac wrth i Brackenbury ddychwelyd canwyd yr Utgorn a daeth torf o ryw 600 o bobl ynghyd wrth y castell.

Wedi`r dorf eu bygwth llwyddodd cyfeillion Brackenbury i ddianc, ond yn ôl un disgrifiad daeth ef ei hun allan o`r castell fel cowboi mewn ffilm western - *guns a blazin`*! Llwyddodd y dorf i dorri mewn i`r castell a thaflwyd eiddo Brackenbury i`r ffôs. Arestiwyd dau o arweinwyr y dorf yn ddiweddarach - sef Dafydd Ifan y Gof (David Jones), a`i fab Siaci Ifan y Gof (John Jones).




Yn ôl un ffynhonnell llwyddodd Siaci i ddianc pan oedd yn cael ei gludo i`r Llys yn Aberteifi. Yn achos llys ei dad roedd pob un o`r tystion yn Saeson, ond doedd 9 o`r 12 oedd ar y rheithgor ddim yn medru siarad Saesneg. Gwrthodwyd y cais am gyfieithydd gan y Siarsiant Heywood oherwydd ei fod yn teimlo y dylai achosion llys gael eu cynnal drwy`r Saesneg, ac o ganlyniad cafodd Dafydd Ifan ei ryddhau. Gorfodwyd rhai pobl oedd wedi rhoi tystiolaeth yn erbyn Dafydd Ifan yn y llys i symud o`r ardal, a llosgwyd rhai o`u cartrefi i`r llawr. Bu farw Dafydd Ifan 8 mlynedd yn ddiweddarach, ond roedd Siaci byw tan ei fod yn 85 (bu farw yn 1897). Er iddo ddianc o afael y gyfraith, fe fu yn y carchar am resymau eraill yn ddiweddarach.

A beth am Brackenbury? Roedd yn ddyn styfnig - dychwelodd i`r ardal eto yn 1828 ac adeiladu ty o`r enw **Cofadail Heddwch!** Fuodd e` ddim yno`n hir serch hynny, a gwerthodd y ty, a`i dir a diflannu o`r adral am byth. Mae hanes Rhyfel y Sais Bach yn rhan anrhydeddus o Hanes Cymru - ac mae Seren Tan Gwmwl yn cyfarch trigolion Mynydd Bach - rhai o wir arwyr Hanes Cymru.

# Mae`r Frwydr Yn Parhau - Y Gwirionedd am fudiad Meibion Glawdwr

Yn dilyn cyfweliad syfrdanol Sion Aubrey Roberts am weithgareddau ac antics y mudiad Meibion Glyndwr, cafodd Seren Tan Gwmwl wybodaeth ecscliwsif am gynlluniau y mudiad yn y dyfodol - a diolch byth eu bod wedi cael eu hatal mewn pryd. Dywedodd llefarydd ar ran y mudiad...



*"Roedd yn amser i ddiffodd y tân, ond roedd yr hyn oedd yn mynd i ddigwydd ddeg gwaith gwaeth nag unrhyw beth sydd wedi digwydd yn barod. Ers cyfnod boddi Trywerynl, mae dwr yn un o brif symbolau gorthrwm Cymru"*

Nod y mudiad oedd i ymladd dwr gyda dwr. Dyma restr sinistr o gynlluniau`r mudiad.

* YR YMGYRCH DAI - roedd y mudiad newydd, Meibion Glawdwr yn bwriadu ymosod ar dai haf oedd wedi cael eu prynu gan Saeson ar ôl oes o lafur caled, chwysu, ac arbed y ceiniogau prin. Y bwriad oedd mynd i`r ystafell `molchi, rhoi`r plwg yn y bath, agor y taps ac achosi llifogydd yn y ty. Byddai`r llawr wedyn yn dymchwel dan bwysau`r dwr - density = 1g/cm

Aelod o`r mudiad gyda *water pistols*

* BODDI BRADWYR - cynllun oedd eisioes wedi dechrau. Ymosodwyd yn giaidd ar Elan Closs Stephens Dafydd Ellis Thomas gan *deperados* yn cario drylliau dwr, gan achosi niwed difrifol i wasgod DET a ffrog Laura Ashley Elan Closs. Cafwyd bil glanhau enfawr o £46.13, er bod Acne Dafydd El ychydig yn well wedyn. Roedd yn fwriad hefyd rhoi *duckimg* i Elwyn Jones, ac mae`r mudiad wedi bod yn ei wylio wrth iddo fynychu toiledau cyhoeddus Prestatyn yn ddyddiol.



* GWYL GWYLANOD GLAWDWR - Roedd y mudiad eisioes wedi dechrau hyfforddi 212 o wylanod i gario pacedi crisps *Walkers* yn llawn dwr a`u gollwng ar dwristiaid diniwed mewn trowsus byr *Union Jack* a chrysau pel-droed *Aston Villa*.


Dywedodd Roberts, gynt o Feibion Glyndwr ei fod yn falch iawn bod arweinwyr y mudiad wedi cael eu dal, cyn iddyn nhw achosi llanast mawr ar hyd a lled Cymru, a niweidio pobl ddiniwed. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y mudiad ar y rhyngrwyd ar Sirfon.Anarchist.co.ok.book



Laura Ashley (victim)

# ADOLYGIAD FFILM:

CYFARWYDDWR: Quentin Tarantino
RATING: XXX
HYD Y FFILM: 95 munud.






Mae Quentin Tarantino wedi bod wrthi yn addasu y llyfr cyffrous *Annwyl Kate, Annwyl Saunders* i`r sgrin fawr. Sion Eirian yw awdur y sgript, ac mae wedi addasu`r stori sy`n seiliedig ar y digwyddiad pan gyfarfu Kate Roberts a Saunders Lewis - dau hen berson crebachlyd, blin - ar benwythnos yn Rhyl yn 1938. Wedi sesiwn hir o ryw, opium a lager aethant ar daith ddinistriol o gwmpas arfordir Gogledd Cymru gan adael llwybr o ddinistr, trais, ofn, mwy o drais, ofn, a hyd yn oed mwy o drais ar eu holau.

Mae`r ffilm yn dangos mewn manylder graffig sut aeth Roberts ati i boenydio pobl gyda`i hen wep blin, Medusaidd. Oherwydd ei nwyd chwantus am Kate, dilynodd Saunders hi ar ei hymgyrch dreisiol, ac aeth ati i ddallu nifer o bobl drwy eu gorfodi i edrych ar ei wallt am dros awr ar y tro.








Yn ôl y stori, roedd Saunders Lewis ar y pryd yn bennaeth ar gang sadistaidd oedd yn cynnwys *consigleri* DJ `the Hump` Williams, a`r Italian Stallion ei hun Lewis Valentino. Roedd y gang yn enwog led-led Cymru a Phen Llyn am eu hymgyrchoedd llosgi. Mae`r ffilm hefyd yn esbonio sut wnaeth Saunders anharddu ei hun pan losgodd hanner ei wallt i ffwrdd mewn cystadleuaeth cynnu rhechfeydd gyda Kate Roberts.

Y Gang - The Usual Suspects

Dame Thora Hurd sy`n actio Kate, a bu`n rhaid codi corff Sir Michael Horden i chwarae rhan y Saunders ifanc, dead pan. Mae`r stori yn gorffen yn drist pan fod gweision y gyfraith yn dal y ddau droseddwr. Mae`r ddau yn cael frontal lobotomy, ac yn byw gweeddill eu dyddiau yn ysgrifennu straeon a dramau diflas.



Dywedodd Pennaeth Sgrin Cymru cyf., Berwyn Rowlands... *"Mae hon yn ffilm warthus, a dyw hi ddim yn dilyn o gwbl yn nhraddodiad ffilmiau Cymraeg. Mae`r stori`n symud yn gyflym, mae`r dialog yn dda ac mae`r actio yn dderbyniol. Nid ffilm Gymraeg yw hon mae`n amlwg".*

# EL PATATERO

Mae gan Gymru hanes anrhydeddus iawn yn y frwydr yn erbyn Ffasgiaeth. O`r glowyr a`r gweithwyr aeth i ymladd yn y Frigâd Ryngwladol a mudiadau eraill yn erbyn byddin Ffasgaidd Franco, i`r bobl gyffredin aeth ati i godi arian i helpu brwydr Gweriniaeth Sbaen. Un person sy`n haeddu cael sylw am ei ran bersonol ef yn y frwydr arwrol hon yw El Patatero, neu Potato Jones.

Cafodd Jones ei eni yn Abertawe, yn fab i deilwr, ac aeth i`r môr pan oedd yn 11 oed. Erbyn ei fod yn 14 roedd wedi bod o gwmpas yr Horn. Bu`n amlwg yn Rhyfel Cartref Sbaen, ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd cafodd ei fomio gan awyren Almaenig ac anafodd ei ysgwydd. O fewn dau fis roedd yn rhan o`r llynges fu`n cario milwyr yn ôl o Dunkirk. Bu farw yn Abertawe yn 1965, yn 92 oed.

Pan gyhoeddodd byddin Franco ar Ebrill 6, 1937 na fydden nhw`n caniatau i fwyd gael ei symud mewn i Wlad y Basg roedd yn edrych fel petai`r frwydr dros ryddid yno drosodd. Serch hynny, doedd y capten llong o Gaerdydd, David John Jones - neu Potato Jones - ddim yn cytuno. Defnyddiodd ei long *Marie Llewellyn* i geisio torri`r blocâd ar Wlad y Basg, a mynd a bwyd i bobl Bilbao oedd yn llwgu dan orthrwm blocâd Franco, gan lwyddo i wneud hynny yn y diwedd.

Daeth yn enwog oherwydd iddo gael ei gyfweld gan yr *Evening News* a`r *Daily Express*. Roedd yn gymeriad lliwgar, dewr oedd yn fodlon peryglu ei fywyd i fynd â bwyd i bobl y Basg - er ei fod, wrth gwrs, hefyd yn cael ei dalu`n dda am wneud hynny! Mae Potato Jones yn cael ei gofio oherwydd iddo gyfrannu at y frwydr ddewr yn erbyn Ffasgiaeth.